Mae Calan Mai yn dathlu cerddoriaeth hefyd!

Beth am ddod yn gerddor heddiw?

Dyma gyfarwyddiadau ar sut i wneud gitâr allan o eitemau yn y cartref!

Uwchlwythwch eich lluniau a thagiwch ni /
Upload your pictures and tag us:

@micnpt @menteriaithcnpt @MenterIaithCNPT

Adnoddau:

Blwch Hancesi Papur

Bandiau Elastig

Rholyn Papur Cegin (gwag)

Siswrn (a chymorth oedolyn)

Tâp

Paent i'w haddurno



Cyfarwyddiadau

1. Cymerwch flwch hancesi papur a sicrhau bod agoriad y blwch (lle mae'r hancesi papur yn dod allan) yn glir, felly tynnwch unrhyw blastig a allai fod yn y ffordd.
2. Nesaf torrwch dwll yn ochr y blwch ar gyfer y rholyn papur cegin wag. Rhowch y rholyn ar ben y blwch a thynnu cylch o'i gwmpas. Gofynnwch i oedolyn i'ch helpu chi i dorri'r cylch allan.
3. Rhowch y rholyn papur cegin wag yn y twll - gwnewch yn siŵr ei fod wedi'i osod yn ddigon pell i fewn i'r bocs fel ei fod yn gadarn. Gosodwch dâp o'i gwmpas os oes angen.
4. Yna rhowch y bandiau elastig dros y blwch o'r top i'r gwaelod. Gallwch ddefnyddio gwahanol feintiau er mwyn creu sawl sain wahanol. Dylai 3 i 4 bandiau elastig fod yn ddigon.
5. Addurnwch y gitâr sut bynnag y hoffech ac yna crëwch ychydig o gerddoriaeth!

MENTRAU IAITH
CYMRAEG
menter iaith Castell-nedd Port Talbot
Llywodraeth Cymru Welsh Government
wikiHow

Cyswllt: 01639 763819 | menter@micnpt.cymru | Rhif Cwmni 6156176